OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2025 Rhif 1250 (Cy. 201)

2025 No. 1250 (W. 201)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

Rheoliadau Addysg (Cyrsiau Addysg Uwch Penodedig) (Cymru) 2025

The Education (Specified Courses of Higher Education) (Wales) Regulations 2025

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan adran 89(1) a (2) o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ("y Ddeddf").

Mae adran 89(3) o'r Ddeddf yn galluogi'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i ddarparu adnoddau ariannol i berson mewn cysylltiad â gwariant yr aed iddo, neu wariant yr eir iddo, gan y person neu gan gorff sy'n cydlafurio (fel y'i diffinnir yn adran 89(4) o'r Ddeddf) at ddiben darparu cwrs cymwys yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru neu ddarparu cwrs cymwys i bersonau sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru.

Mae rheoliad 2 yn darparu bod y cyrsiau addysg uwch a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn wedi eu pennu at ddibenion adran 89(1) o'r Ddeddf, sy'n golygu eu bod yn gyrsiau cymwys at ddibenion yr adran honno.

Mae paragraff 1 o'r Atodlen yn nodi cyrsiau sy'n dod o fewn paragraff 1(g) neu (h) o Atodlen 6 i Ddeddf Diwygio Addysg 1988 ("Deddf 1988"). Mae cwrs yn dod o fewn paragraff 1(g) o Atodlen 6 os yw'n gwrs i baratoi at arholiad proffesiynol a bod safon yr arholiad hwnnw'n uwch na safon arholiadau safon uwch ar gyfer y Dystysgrif Addysg Gyffredinol ("TAG Safon Uwch") neu'r arholiad ar gyfer Tystysgrif Genedlaethol neu Ddiploma Cenedlaethol y Cyngor Addysg Busnes a Thechnegwyr ("BTEC"). Mae cwrs yn dod o fewn paragraff 1(h) o Atodlen 6 i Ddeddf 1988 os yw safon y cwrs (pa un a yw'r cwrs

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations are made under section 89(1) and (2) of the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022 ("the Act").

Section 89(3) of the Act enables the Commission for Tertiary Education and Research to provide financial resources to a person in respect of expenditure incurred, or to be incurred, by the person or a collaborating body (as defined in section 89(4) of the Act) for the purpose of the provision of an eligible course wholly or mainly in Wales or the provision of an eligible course to persons who are ordinarily resident in Wales.

Regulation 2 provides that the higher education courses set out in the Schedule to these Regulations are specified for the purposes of section 89(1) of the Act, meaning they are eligible courses for the purposes of that section.

Paragraph 1 of the Schedule sets out courses that fall within paragraph 1(g) or (h) of Schedule 6 to the Education Reform Act 1988 ("the 1988 Act"). A course is within paragraph 1(g) of Schedule 6 if it is a course in preparation for a professional examination and the standard of that examination is higher than the standard of examinations at advanced level for the General Certificate of Education ("GCE A-level") or the examination for the National Certificate or the National Diploma of the Business & Technician Education Council ("BTEC"). A course is within paragraph 1(h) of Schedule 6 to the 1988 Act if the

yn gwrs i baratoi at arholiad ai peidio) yn uwch na safon cyrsiau sy'n darparu addysg i baratoi at arholiadau TAG Safon Uwch neu'r arholiad ar gyfer Tystysgrif Genedlaethol neu Ddiploma Cenedlaethol y BTEC.

Mae paragraff 2 o'r Atodlen yn nodi cyrsiau ar gyfer Diploma Cenedlaethol Uwch neu Dystysgrif Genedlaethol Uwch y BTEC a nodir o fewn fframwaith prentisiaethau a ddyroddir o dan adran 19(1) o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009, sef fframwaith Cymreig cydnabyddedig, nad yw cydnabyddiaeth wedi ei thynnu'n ôl ohono o dan adran 19(2) o Ddeddf 2009.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Y Gyfarwyddiaeth Addysg Drydyddol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

standard of the course (whether or not the course is in preparation for an examination) is higher than the standard of courses providing education in preparation for examinations at GCE A-Level or the examination for the National Certificate or the National Diploma of the BTEC.

Paragraph 2 of the Schedule sets out courses for the Higher National Diploma or Higher National Certificate of the BTEC which are identified within an apprenticeship framework issued under section 19(1) of the Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009, namely a recognised Welsh framework, from which recognition has not been withdrawn under section 19(2) of that 2009 Act.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Tertiary Education Directorate, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2025 Rhif 1250 (Cy. 201)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Cyrsiau Addysg Uwch Penodedig) (Cymru) 2025

Gwnaed	*28 Tachwedd 2025*
Gosodwyd gerbron Senedd Cymru	*2 Rhagfyr 2025*
Yn dod i rym	*25 Rhagfyr 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 89(1) a (2) o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cyrsiau Addysg Uwch Penodedig) (Cymru) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 25 Rhagfyr 2025.

Pennu cyrsiau addysg uwch

2.—(1) Mae'r cyrsiau addysg uwch a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn wedi eu pennu at ddibenion adran 89(1) o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022.

(2) Yn y rheoliad hwn, ystyr "addysg uwch" yw addysg a ddarperir drwy gyfrwng cwrs o unrhyw ddisgrifiad a grybwyllir yn Atodlen 6 i Ddeddf Diwygio Addysg 1988(**2**).

(**1**) 2022 dsc 1.
(**2**) 1988 p. 40.

2025 No. 1250 (W. 201)

EDUCATION, WALES

The Education (Specified Courses of Higher Education) (Wales) Regulations 2025

Made	*28 November 2025*
Laid before Senedd Cymru	*2 December 2025*
Coming into force	*25 December 2025*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on them by section 89(1) and (2) of the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022(**1**), make the following Regulations.

Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Education (Specified Courses of Higher Education) (Wales) Regulations 2025.

(2) These Regulations come into force on 25 December 2025.

Specification of higher education courses

2.—(1) The courses of higher education set out in the Schedule to these Regulations are specified for the purposes of section 89(1) of the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022.

(2) In this regulation, "higher education" means education provided by means of a course of any description mentioned in Schedule 6 to the Education Reform Act 1988(**2**).

(**1**) 2022 asc 1.
(**2**) 1988 c. 40.

Vikki Howells

Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru
28 Tachwedd 2025

Minister for Further and Higher Education, under authority of the Cabinet Secretary for Education, one of the Welsh Ministers
28 November 2025

YR ATODLEN Rheoliad 2

1. Cwrs o fewn paragraff 1(g) neu (h) o Atodlen 6 i Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (cyrsiau i baratoi at arholiadau proffesiynol ar lefel uwch neu sy'n darparu addysg ar lefel uwch).

2.—(1) Cwrs ar gyfer Diploma Cenedlaethol Uwch neu Dystysgrif Genedlaethol Uwch y Cyngor Addysg Busnes a Thechnegwyr a nodir o fewn fframwaith Cymreig cydnabyddedig.

(2) Yn y paragraff hwn, mae i "fframwaith Cymreig cydnabyddedig" yr ystyr a roddir i "recognised Welsh framework" gan adran 12(4) o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009(**1**).

SCHEDULE Regulation 2

1. A course within paragraph 1(g) or (h) of Schedule 6 to the Education Reform Act 1988 (courses in preparation for professional examinations at a higher level or providing education at a higher level).

2.—(1) A course for the Higher National Diploma or Higher National Certificate of the Business & Technician Education Council which is identified within a recognised Welsh framework.

(2) In this paragraph, "recognised Welsh framework" has the meaning given by section 12(4) of the Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009(**1**).

©ⓗHawlfraint y Goron 2025

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2025

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) 2009 p. 22. Mae diwygiadau i adran 12 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Mae adran 12 i gael ei diddymu gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Atodlen 4, paragraff 24(1) a (2)(b).

(**1**) 2009 c. 22. There are amendments to section 12 that are not relevant to these Regulations. Section 12 is due to be repealed by the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022, Schedule 4, paragraph 24(1) and (2)(b).

ISBN 978-0-348-39745-1



£6.40

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2025/1250